Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 24.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn amlinellu mewn ffordd deg a rhesymol yr effaith y disgwylir i Reoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010 ei chael. Yr wyf yn fodlon bod y manteision yn drech nag unrhyw gostau.

Jane Hutt AC

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

24 Ebrill 2010

Disgrifiad

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y trefniadau gweithredol a'r gweithdrefnau y bydd eu hangen er mwyn cynnal cyfrifiad 2011, ac maent yn rhagnodi'r holiaduron sydd i'w defnyddio – ac y ceir enghreifftiau ohonynt yn yr atodlenni i'r Rheoliadau.

Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

2. Nid oes unrhyw faterion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol.

Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn galluogi i Orchymyn gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn cyfarwyddo bod cyfrifiad yn cael ei gynnal ar gyfer Prydain Fawr neu ar gyfer unrhyw ran ohoni. Yng Nghymru a Lloegr, cafodd y dyletswyddau o dan adran 2 o Ddeddf 1920 sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer cyfrifiad, ac â'i gynnal (a oedd gynt yn cael eu rhoi i'r Cofrestrydd Cyffredinol) eu trosglwyddo i'r Bwrdd Ystadegau gan Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 (p.18), Atodlen 1, paragraffau 1 a 2. Yn ymarferol, mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu harfer gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef swyddfa weithredol y Bwrdd Ystadegau (a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf 2007).

4. Mae adran 3 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau cyfrifiad sy'n ymdrin â'r trefniadau gweithdrefnol ac ymarferol y mae eu hangen er mwyn cynnal cyfrifiad yn unol â gorchymyn y cyfrifiad.

5. Cafodd y pŵer i wneud rheoliadau cyfrifiad i Gymru eu trosglwyddo i'r hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006 (O.S. 2006/3334). Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

6. Mae Rheoliad (EC) Rhif 763/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn rhoi rhwymedigaethau ar y DU mewn perthynas â darparu allbynnau ystadegol sy'n seiliedig ar y cyfrifiad (neu ar ffynonellau data tebyg) yn 2011. Mae'r allbynnau ystadegol hyn yn cael eu rhoi i Eurostat (Swyddfa Ystadegol y Gymuned Ewropeaidd) sy'n gyfrifol am ddarparu ystadegau ar lefel Ewropeaidd ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'r allbynnau ystadegol hyn yn golygu bod modd cymharu gwahanol wledydd a rhanbarthau â'i gilydd. Bydd cyfrifiad 2011, felly, yn cynorthwyo'r DU i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Rheoliad.

7. Defnyddir y weithdrefn penderfyniad negyddol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cefndir polisi

8. Proses casglu data sy'n cael ei chynnal bob deng mlynedd, ac sy'n cynnwys pob person a phob aelwyd yn y DU, yw'r cyfrifiad. Mae'n darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer y llywodraeth, busnesau a'r gymuned, a hynny o'r lefel genedlaethol i lefel y gymdogaeth. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n cynllunio ac yn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

9. Mae cymryd rhan yn y cyfrifiad yn orfodol (ac mae'n orfodadwy dan y Rheoliadau hyn). Mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gynnwys pawb yn y cyfrifiad, gan mai dyma'r unig broses casglu data sy'n rhoi darlun manwl o'r boblogaeth gyfan. Mae'n unigryw am ei fod yn cynnwys pawb ar yr un pryd ac yn gofyn yr un cwestiynau ym mhob man. Mae hyn yn golygu bod modd cael data ar gyfer grwpiau poblogaeth bach ac ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, a chymharu gwahanol rannau o'r DU.

10. Mae data'r cyfrifiad yn cael eu defnyddio at chwe phrif ddiben, sef:

- Dyrannu adnoddau – At ddibenion dyrannu adnoddau gan Lywodraeth y DU a chan Lywodraeth y Cynulliad, mae'n gwbl hanfodol bod cyfrifon poblogaeth (o ran y cyfrif cyfansymiol ac o ran nodweddion allweddol) yn gywir ac yn gyson â'i gilydd, a bod mod eu cymharu ar draws yr ardal lle y bwriedir dyrannu'r adnoddau.
- Targedu buddsoddiad – Yn achos llawer o'r pethau y defnyddir cyllid y llywodraeth ar eu cyfer, mae'n rhaid i'r data fod yn gyson ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn golygu bod modd buddsoddi yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Cynllunio - Mae cyfrifon poblogaeth sylfaenol a chyfrifon yn ôl nodweddion allweddol (megis oedran, rhyw, grŵp ethnig, math o aelwyd etc) yn bwysig at ddibenion cynllunio. O bennu'r gwahanol nodweddion sydd gan boblogaeth ardal benodol, gellir mynd ati i gynllunio ar gyfer y math o wasanaethau y mae angen eu darparu. Yn benodol, mae data ar gyfer ardaloedd bach yn holl-bwysig er mwyn cynllunio ar y lefel leol.
- Llunio polisïau a'u monitro - Mae ymdrech bendant yn cael ei gwneud ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod mentrau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth. Gan fod llawer o fentrau yn cael eu rhoi ar waith a'u hasesu ar y lefel leol, gall data'r cyfrifiad fod yn rhan bwysig o'r broses hon.
- Ymchwil academaidd ac ymchwil i'r farchnad – Mae'r gallu i ddarparu ystadegau sy'n ymdrin ag amryfal elfennau ar lefel ardaloedd bach yn hanfodol ar gyfer sawl math o ymchwil. Mae angen cyfrifon poblogaeth sylfaenol a chyfrifon yn ôl nodweddion hefyd.

- Meincnod ystadegol – Yn fwy cyffredinol, mae data'r cyfrifiad yn cael eu defnyddio er mwyn gwella ansawdd llawer o'r ystadegau eraill sy'n cael eu defnyddio at y dibenion uchod. Mae llawer o ystadegau'r llywodraeth yn cael eu meincnodi neu eu grosio gan ddefnyddio data'r cyfrifiad, e.e. data arolygon. Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo amcangyfrifon poblogaeth blynyddol, sy'n cael eu defnyddio'n eang wrth ddyrannu adnoddau, ac mewn meysydd eraill, yn dibynnu'n drwm ar y data poblogaeth a gesglir drwy'r cyfrifiad, gan ddefnyddio'r data hynny fel man cychwyn.

11. Cafodd y Papur Gwyn ar gyfrifiad 2011 *'Helpu i lunio'r dyfodol'*, ei gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2008. Mae ynddo wybodaeth ynghylch pryd, pam a sut y dylid cynnal cyfrifiad 2011, mae'n nodi'r manteision a fydd yn deillio ohono, y pynciau y bwriedir ymdrin â hwy a'r cwestiynau y bwriedir eu gofyn, faint fydd yn ei gostio a phwy fydd yn rhan ohono. Ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ynghylch cynnwys y Papur Gwyn a chafodd ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

12. Mae Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) (O.S. 2009/3210) yn darparu y bydd y cyfrifiad yn cynnwys pob unigolyn a fydd yn bresennol ar yr aelwyd yng Nghymru a Lloegr ar noson y cyfrifiad, yn ogystal â phobl sy'n absennol, os ydynt yn preswylio yno fel arfer. Mae'n rhoi'r cyfrifoldeb dros lenwi holiaduron y cyfrifiad ar ddeiliaid y cartref ac ar unigolion ac ar bobl sydd â gofal am sefydliadau cymunedol, ac mae ynddo eithriadau ar gyfer amgylchiadau penodol. At ei gilydd, mae darpariaethau Gorchymyn y Cyfrifiad yn debyg i'r rheini ar gyfer cyfrifiadau a gynhaliwyd yn y gorffennol, heblaw am newidiadau a wnaed ar ôl gwerthuso cyfrifiad 2001 ac mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Amcanion y Rheoliadau hyn

13. Diben y Rheoliadau hyn yw darparu ar gyfer y trefniadau gweithredol a'r gweithdrefnau y bydd angen eu mabwysiadu er mwyn cynnal cyfrifiad 2011 yng Nghymru. Byddant yn galluogi i Orchymyn y Cyfrifiad ddod i rym. Yn benodol, mae'r Rheoliadau'n darparu fel a ganlyn:

- rhannu Cymru'n ardaloedd a phenodi pobl i weithredu yn yr ardaloedd hynny at ddibenion cynnal y cyfrifiad;
- ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryw bobl gyflawni'r cyfryw ddyletswyddau ag a allai gael eu rhagnodi mewn cysylltiad â chynnal y cyfrifiad;
- ei gwneud yn ofynnol i'r bobl hynny sydd â gofal sefydliadau cymunedol lenwi ffurflenni mewn perthynas â'r sefydliad ac unrhyw breswylwyr sydd ynddo;
- ei gwneud yn ofynnol i'r bobl hynny y mae'n rhaid rhoi'r ffurflenni iddynt roi gwybodaeth i'r bobl hynny sy'n agored i lenwi ffurflenni;
- nodi'r ffurfiau rhagnodedig ar gyfer ffurflenni;

- cadw'r cyfryw ffurflenni, ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, yn ddiogel;
- ei gwneud yn ofynnol i bobl a gyflogir at ddibenion y cyfrifiad wneud ymrwymiad mewn cysylltiad â chyflawni'u dyletswyddau;
- unrhyw faterion eraill y mae gofyn gwneud darpariaeth ar eu cyfer er mwyn rhoi darpariaethau Gorchymyn y Cyfrifiad mewn grym.

Ymgynghori

14. Mae manylion yr ymgynghori a wnaed i'w gweld yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod.

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Yr Opsiynau

15. Gwneud dim - Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o ddeddfwriaeth y mae ei angen er mwyn cynnal cyfrifiad 2011. Mae Gorchymyn y Cyfrifiad (Cymru a Lloegr) 2009 (O.S. 2009/3210) yn cyfarwyddo y bydd cyfrifiad yn cael ei gynnal ar 27 Mawrth 2011. O wneud dim, ni fyddai'r trefniadau gweithdrefnol y mae eu hangen er mwyn cynnal cyfrifiad 2011 yng Nghymru yn cael eu rhoi yn eu lle. O ganlyniad, ni fyddai manteision cynnal y cyfrifiad yn cael eu gwireddu. Ni fyddai Cymru'n gallu defnyddio unrhyw ddata o gyfrifiad 2011, yn wahanol i wledydd eraill y DU lle y byddai'r cyfrifiad yn dal i fynd rhagddo. Byddai'r rheini sy'n defnyddio data'r cyfrifiad yn cael eu gorfodi i barhau i ddefnyddio data o gyfrifiad 2001 neu o ffynonellau eraill, neu i gomisiynu ymarferion casglu data drud. Gallai gwneud dim arwain at nifer o ganlyniadau posibl, gan gynnwys camddyrannu adnoddau, cynllunio gwael ac ymyriadau nad ydynt wedi'u targedu'n briodol.

16. Gwneud y Rheoliadau hyn – Drwy wneud y Rheoliadau hyn, bydd modd cynnal cyfrifiad 2011 yng Nghymru, yn unol â'r cyfarwyddyd yng Ngorchymyn y Cyfrifiad 2009. Byddai modd gwireddu manteision y cyfrifiad, fel y'u nodir isod. Mae costau cysylltiedig (sydd hefyd i'w gweld isod) i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Y Costau a'r Manteision

17. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi paratoi achos busnes llawn ar gyfer cyfrifiad 2011, ac mae Trysorlys Ei Mawrhydi a Swyddfa Masnach y Llywodraeth wedi craffu ar yr achos busnes hwnnw. Mae'n dangos gwerth cyfrifiad 2011 i Gymru a Lloegr, a bod y manteision yn drech na'r costau. Caiff yr achos busnes ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2010.

Y Costau

18. Bydd rhaglen y cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr yn costio £482 miliwn i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r gost hon yn ymestyn dros gyfnod o 12 mlynedd. O edrych ar y costau blynyddol fesul pob pen o'r boblogaeth, mae cyfrifiad Cymru a Lloegr yn cymharu'n ffafriol â chyfrifiadau tebyg sy'n cael eu cynnal mewn gwledydd eraill.

19. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol nac ar Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi sicrhau cyllid eisoes ar gyfer y cyfrifiad, a hynny hyd at a chan gynnwys 2011-12. Bydd y cyllid a gaiff y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ôl 2011-12 er mwyn dadansoddi a pharatoi allbynnau'r cyfrifiad yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad nesaf o wariant. Mae oddeutu 70% o'r gyllideb ar gyfer y cyfrifiad wedi'i ymrwymo eisoes drwy gontractau yr oedd angen eu sefydlu er mwyn ymgymryd ag amryfal rannau o'r broses sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad (er enghraifft, rheoli'r gweithlu yn y maes, anfon holiaduron y cyfrifiad drwy'r post).

20. Ym mis Gorffennaf 2006, cytunodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd a'r Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys ar egwyddorion cytundeb ariannu ar gyfer y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Dywedwyd yn y cytundeb hwn mai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fyddai'n talu am y "busnes arferol" sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad, tra byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu am unrhyw newidiadau y byddai am eu gwneud. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud unrhyw newidiadau i gyfrifiad 2011; ac o'r herwydd, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Y Manteision

21. Defnyddir data'r cyfrifiad wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Yng Nghymru, mae dangosyddion sy'n deillio o'r cyfrifiad yn cael eu defnyddio wrth ddyrannu oddeutu £1.8 biliwn o'r swm o £4.1 biliwn sydd ar gael i gynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

22. Mae'r broses o ddyrannu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn seiliedig yn rhannol ar ffigurau sy'n deillio o'r cyfrifiad. Am fod ffigurau hanesyddol yn cael eu defnyddio hefyd wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer y gwasanaeth iechyd, nid oes modd cyfrifo ffigur manwl gywir er mwyn dangos y manteision sy'n gysylltiedig â data'r cyfrifiad . Fodd bynnag, yn ôl un amcangyfrif, pe na bai data'r cyfrifiad ar gael, a phe bai'n rhaid defnyddio'r ffynhonnell ddata ail orau (y nifer sydd wedi cofrestru gyda meddygon teulu), mae'n bosibl y byddai gwall o oddeutu 2% wrth gyfrifo dyraniadau targed. Byddai'r ganran hon yn cyfateb i swm o dros £80 miliwn wrth ddosbarthu cyfrannau targed.

23. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gwneud peth gwaith dadansoddi er mwyn dynodi a mesur holl fanteision cyfrifiad Cymru a Lloegr i lywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a'r sector preifat. Dangosodd y gwaith hwnnw fod y manteision hynny'n werth £720 miliwn. Gan nad yw'r ffigur hwn yn cynnwys yr holl ddibenion gwahanol y defnyddir data'r cyfrifiad ar eu cyfer, mae'n debyg ei fod yn amcangyfrif rhy isel o lawer o'r manteision. Er enghraifft, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y defnydd a wneir o'r wefan Ystadegau Cymdogaethau (dim ond un o'r ffyrdd o weld data'r cyfrifiad), lle y mae dros 100,000 o drawiadau'r mis.

Dyletswyddau Statudol a Chyrff Statudol

24. Mae'r cyfrifiad yn un o'r ffynonellau data allweddol ar yr iaith Gymraeg ac ar feysydd cydraddoldeb yng Nghymru. O beidio â gwneud y Rheoliadau hyn, ni fyddai data ar y pynciau hyn ar gael ar gyfer ardaloedd daearyddol bach ac ar gyfer grwpiau poblogaeth bach. Gallai hynny effeithio ar waith datblygu polisi, ar fonitro ac ar dargedu ymyriadau. Byddai'n rhaid i'r rheini sy'n defnyddio'r data hyn ddibynnu ar ffynonellau eraill (er enghraifft, data arolygon), a fyddai'n llai manwl ac yn llai dibynadwy, ac na fyddent ar gael o gwbl mewn rhai achosion.

25. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cynnal dau asesiad eisoes o'r effaith ar gydraddoldeb yn ystod cam profi a dylunio'r cwestiynau. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn cynnal dau asesiad arall o effaith cyfrifiad 2011 ar gydraddoldeb , a hynny mewn perthynas â recriwtio a phenodiadau, ac mewn perthynas â chyswllt â'r gymuned. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau yn ystod gwanwyn 2010. At hynny, mae tri asesiad ychwanegol o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu datblygu, a fydd yn ymdrin â methu â chydymffurfio, â marchnata ac ag allbynnau'r cyfrifiad. Disgwylir y bydd y rhain yn cael eu datblygu yn hwyrach yn ystod 2010.

26. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ymrwymo i sicrhau bod gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cael eu bodloni. Mae wedi cyhoeddi atodiad i'w Gynllun Iaith Gymraeg lle y mae'n nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd fel rhan o'r cyfrifiad. Bydd y camau a gymerir yn cynnwys:

    - holiaduron a deunydd cymorth y cyfrifiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg;
    - ymgyrchoedd recriwtio yn cael eu cynnal yn Gymraeg a Saesneg;
    - deunydd cyhoeddusrwydd ar gael yn y naill iaith a'r llall;
    - defnyddio staff dwyieithog yn y maes, yn enwedig mewn ardaloedd lle y mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg.

27. Bernir mai ychydig iawn o effaith o ran costau a gaiff y ddeddfwriaeth hon ar fusnesau, ar lywodraeth leol ac ar gyrff gwirfoddol. Y rheswm dros hyn yw nad casglu data am fusnesau yw diben y cyfrifiad. Yr unig effaith ar fusnesau fydd y gofyniad i bobl sydd â gofal sefydliadau cymunedol masnachol lenwi ffurflen ar gyfer y sefydliad ac ar gyfer unrhyw un sy'n preswylio ynddo ac nad yw'n gallu'r llenwi ffurflen drosto'i hun.

28. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol ysgwyddo rhai costau wrth gydweithredu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynllunio ac i gynnal y cyfrifiad. Mae pob un o awdurdodau lleol Cymru wedi penodi Rheolwr Cyswllt y Cyfrifiad a Rheolwr Cynorthwyol Cyswllt y Cyfrifiad. Fodd bynnag, nid yw'r swyddi hyn yn cael eu hystyried yn rhai llawnamser a disgwylir y byddai swyddogion a gyflogir gan yr awdurdodau eisoes yn ysgwyddo'r dyletswyddau hyn yn ogystal â'u swyddogaethau arferol. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol hefyd gynorthwyo gyda gwaith ar gofrestrau cyfeiriadau'r cyfrifiad, ac i helpu i feithrin cysylltiadau â'r gymuned, i gefnogi staff yn y maes yn lleol ac i hyrwyddo'r cyfrifiad yn eu hardaloedd. Mae cost y gweithgareddau hyn yn amrywio yn ôl maint yr awdurdod; felly, nid oes modd cyfrifo cost gyfartalog. Fodd bynnag, bernir bod y manteision sy'n deillio o gasglu data'r cyfrifiad yn drech na'r costau.

29. Bydd y ddeddfwriaeth hon o fantais i bob corff statudol, a hynny oherwydd y bydd modd iddynt ddefnyddio data'r cyfrifiad at eu dibenion eu hunain.

Ymgynghori

30. Nid aed ati i ymgynghori'n benodol am y Rheoliadau hyn; fodd bynnag, cafodd y gwaith o'u datblygu ei lywio gan gyfres o weithgareddau ymgynghori a oedd yn ymwneud â phob agwedd ar raglen y cyfrifiad. Mae'r rhaglen ymgynghori honno'n cael ei chrynhoi isod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol drwy gydol y broses o ddatblygu cyfrifiad 2011 er mwyn sicrhau bod anghenion Cymru'n cael eu hystyried.

Ymgynghori â defnyddwyr

31. Mae'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad 2011 wedi'i lywio'n bennaf gan ofynion ac anghenion y rheini sy'n defnyddio ystadegau'r cyfrifiad. Mae'n seiliedig hefyd ar y gwaith gwerthuso a wnaed ar gyfrifiad 2001 ac ar gyngor ac arweiniad a gafwyd oddi wrth sefydliadau sydd â phrofiad o waith tebyg. Penderfynwyd ar y cynllun ar ei gyfer ar ôl ymgynghori'n eang drwy bwyllgorau cynghori ffurfiol, gweithgorau pwnc a chyfarfodydd cyhoeddus, a thrwy gyfrwng dulliau megis papurau ymgynghori a phapurau gwybodaeth, a gwefan y cyfrifiad.

32. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynhaliodd yr ymgynghoriad ynglŷn â phynciau a chwestiynau cyfrifiad 2011 ar gyfer Cymru a Lloegr, gyda chymorth oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ym mis Mai 2005, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddogfen ymgynghori *'The 2011 Census: Initial view on content for England and Wales'.* Y nod oedd dynodi pa anghenion sydd gan ddefnyddwyr o safbwynt nifer mawr o'r pynciau arfaethedig y byddai'r cyfrifiad yn ymdrin â hwy. Ategwyd yr ymgynghoriad hwn gan gyfres o gyfarfodydd agored, gan gynnwys un yng Nghymru.

33. Cafodd 2,000 o ymatebion yn ymwneud â'r pynciau eu cyflwyno gan bron 500 o ddefnyddwyr yng Nghymru a Lloegr. Daeth dros 330 o ymatebion yn ymwneud â'r pynciau i law oddi wrth 28 o ddefnyddwyr yng Nghymru. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, sefydliadau iechyd, y byd academaidd, busnesau, grwpiau buddiant arbennig a'r cyhoedd.

34. Mewn papur gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2006, *'The 2011 Census: Assessment of Initial User Requirements on Content for England and Wales'*, manylwyd ar yr ymatebion ac ar sut yr oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn dyfeisio'r pynciau ar gyfer holiadur arfaethedig cyfrifiad 2011. Aeth Llywodraeth y Cynulliad ati hefyd i gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law o Gymru am faterion yn ymwneud â Chymru.

35. Cynhaliwyd ymgynghoriad arall manylach yn 2006 a oedd yn ymdrin ag ethnigrwydd, hunaniaeth, iaith a chrefydd. Nod yr ymgynghoriad hwnnw oedd cael gwell dealltwriaeth o'r anghenion yn hyn o beth, a phennu'r

blaenoriaethau cymharol, o ystyried y cyfyngiadau o ran lle ar holiadur y cyfrifiad. Daeth dros 600 o ymatebion i law, 37 ohonynt o Gymru.

36. Wrth ddatblygu'r cyfrifiad, aed ati mewn nifer o ffyrdd heblaw am ymgyngoriadau ysgrifenedig ffurfiol i ymgynghori â'r rheini sy'n ei ddefnyddio. Trefnodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gyfres o gyfarfodydd agored (gan gynnwys un yng Nghymru) yn 2007 i drafod yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cyfrifiad. Yn 2007 hefyd, trefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddau weithdy er mwyn trafod gyda defnyddwyr yng Nghymru eu syniadau hwy am yr hyn y dylid ei gynnwys ynddo. Ymgynghorwyd â grwpiau buddiant arbennig drwy gydol y broses o ddatblygu'r cyfrifiad, naill ai drwy eu cynnwys mewn ymgyngoriadau ffurfiol neu drwy gynnal cyfarfodydd ad-hoc. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y gwaith paratoi ar gyfer y cyfrifiad gyda'r Fforwm Ffydd fel rhan o'r broses hon. Aed ati hefyd, drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cyfrifiad, i geisio barn Penaethiaid Proffesiwn ar gyfer Ystadegau ar draws y llywodraeth.

Grwpiau Cynghori ar y Cyfrifiad

37. Mae'r Grwpiau Cynghori ar y Cyfrifiad yn cynrychioli buddiannau'r prif gymunedau defnyddwyr. Fel arfer, caiff cyfarfodydd eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, ac yn aml, fe'u cynhelir ar yr un pryd â datblygiadau penodol neu ar adegau allweddol yn y broses o gynllunio'r cyfrifiad. Sefydlwyd grwpiau ar gyfer:
    - defnyddwyr yng Nghymru;
    - adrannau'r llywodraeth ganolog;
    - yr awdurdodau lleol;
    - y gwasanaeth iechyd;
    - y sector busnes a buddiannau proffesiynol;
    - y gymuned academaidd;
    - sefydliadau sydd â buddiannau ym maes anghenion arbennig a phoblogaethau lleiafrifol.

38. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yr awdurdodau lleol, Un Llais Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydliadau eraill yng Nghymru yn cael eu cynrychioli ar y Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad: Cymru.

Ymgynghori â Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU

39. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ymgynghori hefyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU ynglŷn ag amryfal agweddau ar y cynigion ar gyfer y cyfrifiad. Aeth bron pob un o bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal, ati yn ystod 2006 a 2007 i drafod y paratoadau ar gyfer cyfrifiad 2011. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ymddangos gerbron pwyllgorau dethol Senedd y DU ac wedi bod i gyfarfodydd nifer o Grwpiau Seneddol Hollbleidiol. Mae wedi mynd ati hefyd i geisio barn Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad drwy ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn Portcullis House ac yn adeilad y Senedd yng Nghymru yn 2009 a 2010.

40. Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y Papur Gwyn ar gyfrifiad 2011, *'Helpu i lunio'r dyfodol'*. Roedd y Papur Gwyn yn ymdrin mewn cryn fanylder â'r cwestiynau arfaethedig, ac roedd hefyd yn nodi'r cwestiynau a gafodd eu hystyried ond nad oedd bwriad bellach i'w cynnwys. Roedd hefyd yn disgrifio proses y cyfrifiad yn ei chyfanrwydd. Cafodd y Papur Gwyn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus at holl Aelodau'r Cynulliad, at gadeiryddion y pwyllgorau ac at reolwyr busnes y pleidiau i roi gwybod iddynt bod y Papur Gwyn wedi'i gyhoeddi.

Asesiad Cystadleuaeth

41. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gystadleuaeth.

Crynodeb

42. Drwy wneud y Rheoliadau hyn, bydd modd sefydlu'r trefniadau gweithdrefnol y mae eu hangen er mwyn cynnal y cyfrifiad. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n ysgwyddo'r costau cysylltiedig. Mae'r manteision i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn ogystal â'r manteision ehangach, yn drech na'r gost; o'r herwydd, penderfynwyd mai gwneud deddfwriaeth oedd yr opsiwn yn dylid ei ddewis.

Adolygu ar ôl Gweithredu

43. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn caniatáu ar gyfer cynnal cyfrifiad arfaethedig 2011, ac mae'n rheoli'r broses honno. Bydd wedi cyflawni ei amcanion ac yn cael ei phrofi'n llwyddiannus os cynhelir y cyfrifiad ar y diwrnod penodedig yn 2011 ac os bydd y gweithgareddau a'r prosesau cysylltiedig sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y cyfrifiad yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus, gyda phobl yn llenwi'u holiaduron yn ôl y gofyn, a'r holiaduron hynny'n cael eu casglu, eu prosesu a'u dadansoddi er mwyn darparu allbynnau ystadegol.

44. Bydd proses ymgynghori'n mynd rhagddi gydol 2010 er mwyn pennu pa ddata ystadegol y mae eu hangen ar y rheini a fydd yn defnyddio cyfrifiad 2011. Bydd y broses hon yn helpu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i flaenoriaethu anghenion o ran yr allbynnau ac i ddarparu allbynnau sy'n berthnasol i'r defnyddwyr.

45. Yn yr un modd â chyda cyfrifiadau'r gorffennol, bydd adolygiad trwyadl o gyfrifiad 2011 ar ôl iddo gael ei gynnal. Bydd yr adolygiad hwnnw'n fodd i werthuso rhaglen y cyfrifiad yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y gwaith cynllunio a pharatoi ar ei chyfer, a'r agweddau gweithredol arni.